# Pennod 4

# Dylunio, Cymeradwyo, Dilysu, Monitro ac Adolygu Rhaglenni

## 4. DYLUNIO, CYMERADWYO, DILYSU, MONITRO AC ADOLYGU RHAGLENNI

### 4.1 Egwyddorion

4.1.1 Mae'r Brifysgol yn ymroi i ddarparu profiadau dysgu o ansawdd uchel i'w myfyrwyr ac felly mae ansawdd ei rhaglenni o'r pwys mwyaf. Bodola ei phrosesau ar gyfer dylunio, cymeradwyo, dilysu, monitro ac adolygu rhaglenni i sicrhau bod y rhaglenni o safon academaidd briodol, gydag adnoddau priodol a'u bod yn parhau i ennyn parch dros amser.

4.1.2 Mae'n ofyniad i bob rhaglen astudio:

- gael eu dylunio i gydymffurfio â gofynion yr *UK Quality Code for Higher Education* a gyhoeddwyd gan yr ASA a gofynion ac arweiniad allanol perthnasol arall;
- arwain at ddyfarniadau y mae modd eu cymharu â dyfarniadau eraill a roddir ac a gyflwynir ar hyd addysg uwch yn y Deyrnas Unedig mewn perthynas â safonau, amcanion, parhad a lefel mynediad ac sy'n cadw at fframweithiau cymwysterau cenedlaethol;
- cael eu cymeradwyo a'u dilysu'n ffurfiol cyn eu cyflwyno;
- bod yn destun monitro parhaus ac adolygiad blynyddol ffurfiol;
- fel arfer bod yn destun ail-ddilysu ffurfiol yn y bumed flwyddyn o gyflwyno neu'n gynt.

4.1.3 Yn ogystal, mae'r egwyddorion canlynol yn sail i brosesau cymeradwyo, dilysu a monitro:

- annog gwella rhaglenni'n barhaus;
- ymgorffori arfer gorau, arloesedd a chreadigrwydd o fewn dysgu ac addysgu;
- ymgorffori priodoleddau graddedigion PCYDDS;
- cynnwys adborth gan randdeiliaid allanol (e.e. cyflogwyr, cyrff proffesiynol, statudol a rheoleiddio (PSRB), sefydliadau'r trydydd sector, cyn-fyfyrwyr);
- cynnwys adborth gan arbenigwyr mewnol ac allanol;
- cynnwys myfyrwyr fel rhanddeiliaid allweddol.

4.1.4 Y Senedd sy'n gyfrifol am gymeradwyo, dilysu ac adolygu rhaglenni sy'n arwain at ddyfarniadau'r Brifysgol ac am sicrhau bod y Brifysgol yn cynnig portffolio sy'n adlewyrchu ei chenhadaeth a'i hamcanion strategol. Gall y Senedd ddirprwyo cyfrifoldeb gweithredol am gynnal y prosesau hyn i'w his-bwyllgorau a swyddogion y Brifysgol. Disgwylir i gyfathrebu a chydweithio agos rhwng gwasanaethau proffesiynol ac Athrofeydd y Brifysgol fod yn sail i'r prosesau.

4.1.5 Mae'r Brifysgol yn cydnabod pwysigrwydd hyfforddiant a chymorth priodol i staff sy'n ymwneud â dilysu ac adolygu rhaglenni.

4.1.6 Mae'r bennod hon yn nodi'r canlynol:

- y rheoliadau sy'n gysylltiedig â phrosesau dylunio, cymeradwyo, dilysu, monitro ac adolygu rhaglenni astudio a addysgir, a rhaglenni gradd ymchwil gydag elfen a addysgir (MRes a Doethuriaethau Proffesiynol);
- yr egwyddorion y disgwylir i Athrofeydd a sefydliadau partner gadw atynt.

4.1.7 Gweithia'r Brifysgol mewn partneriaeth â nifer o sefydliadau eraill, o fewn y DU a'r tu allan iddi. Disgrifir ei threfniadau ar gyfer rheoli'r sefydliadau partner cydweithredol hyn ym Mhennod 9 o'r LlAA. Dylid darllen y bennod hon, sy'n crynhoi'r egwyddorion a ddilynir ar gyfer dilysu, monitro ac adolygu rhaglenni astudio a addysgir a gynigir trwy bartneriaethau cydweithredol, ar y cyd â Phennod 9. Lle bo'n briodol, gallai'r Brifysgol addasu prosesau os ystyrir bod hyn yn angenrheidiol i fynd i'r afael ag agweddau penodol ar y ddarpariaeth dan sylw. Ceir manylion ynglŷn â graddau ymchwil a gynigir trwy sefydliadau partner ym Mhennod 9.

4.1.8 Mae'r rheoliadau a'r egwyddorion sy'n ymwneud â chymeradwyo rhaglenni y tu allan i'r fframwaith credydau cenedlaethol wedi'u hamlinellu ym Mhennod 11 o'r LlAA. Mae Pennod 11 hefyd yn cynnwys rheoliadau ar gyfer cymeradwyo dyfarniadau ar y cyd.

4.1.9 Mae'r rheoliadau a'r egwyddorion a ddisgrifir yn y bennod hon yn cymryd i ystyriaeth ddogfennau'r ASA, *Advice and Guidance* mewn perthynas â 'Monitro a Gwerthuso' a 'Dylunio a Datblygu Cyrsiau'.

4.1.10 Mae'r holl brosesau yn ymwneud â dylunio, cymeradwyo, dilysu, monitro ac adolygu'n cael eu gwerthuso a, lle bo'n briodol, eu haddasu yn flynyddol fel rhan o'r adolygiad blynyddol o'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd er mwyn sicrhau bod y prosesau hyn yn cael eu gwella'n barhaus.

## 4.2 Cymeradwyo Rhaglenni (Cam 1)

4.2.1 Mae'r Brifysgol yn gwahaniaethu rhwng:

- cymeradwyo rhaglenni, sy'n benderfyniad busnes a oruchwylir gan y Tîm Cynllunio Academaidd (TCA) ar ran y Senedd;
- dilysu rhaglenni, sy'n weithgaredd academaidd a oruchwylir gan y Pwyllgor Safonau Academaidd (PSA) ar ran y Senedd.

4.2.2 Ni chaiff rhaglen ei hysbysebu'i na chyflwyno i'w dilysu oni bai ei bod wedi'i chymeradwyo yn gyntaf gan y Tîm Cynllunio Academaidd gydag awdurdod y Senedd. Ni chaiff rhaglen ei chyflwyno oni bai ei bod wedi'i dilysu yn gyntaf gan y PSA gydag awdurdod y Senedd.

4.2.3 Mae unrhyw gynnig am raglen newydd neu am newid mawr i raglen bresennol yn gofyn am gymeradwyaeth ar lefel Athrofa/adran ddynodedig arall o'r Brifysgol yn gyntaf ac yna ar lefel y Brifysgol. Rhaid i gynigion gan sefydliadau partner cydweithredol, gan gynnwys partneriaid strwythurol, gael eu cyflwyno trwy'r Adran berthnasol o'r Brifysgol.

4.2.4 Pwrpas y broses gymeradwyo, ar y ddwy lefel, yw archwilio:

- bod y cynnig yn gyson â Chynlluniau Strategol y Brifysgol a'r Athrofeydd ac yn cyd-fynd â'r ymagwedd strategol at reoli portffolio;
- bod adnoddau ar gael i fodloni gofynion ariannol tebygol y rhaglen(ni);
- bod staff medrus â'r cymwysterau priodol ar gael i ddarparu'r rhaglen(ni);
- bod/y bydd cyfleusterau, adnoddau dysgu, unrhyw adnoddau arbenigol, a gwasanaethau cymorth myfyrwyr yn eu lle i ddarparu profiad academaidd o ansawdd uchel;
- bod marchnad glir a phenodol ar gyfer y rhaglen;
- bod y rhaglen yn cyd-fynd yn briodol â'r fframwaith cymwysterau cenedlaethol;
- y bydd y rhaglen wedi'i llunio i gymryd i ystyriaeth anghenion ac adborth cyflogwyr a diwydiant yn ogystal â'r gofynion gan unrhyw randdeiliaid allanol (megis Cyrff Proffesiynol, Statudol a Rheoleiddio neu Safonau Prentisiaethau) ac y bydd yn ymgorffori cyflogadwyedd o fewn y rhaglen fel y bo'n briodol;
- nad oes gwrthdaro gyda meysydd eraill gweithgareddau'r Brifysgol ac y cafwyd deialog a chydweithio gyda meysydd eraill yn y Brifysgol fel y bo'n briodol (e.e. ar gyfer datblygiadau rhyngddisgyblaethol).

4.2.5 Os bydd rhaglen arfaethedig yn cynnwys cydweithio rhwng dwy Athrofa neu fwy, rhaid i un Athrofa gymryd cyfrifoldeb dros oruchwylio'r broses o ddatblygu a chymeradwyo'r rhaglen, (a bydd, maes o law, yn 'perchnogi'r' rhaglen i ddibenion dilysu, adolygiad blynyddol, ac ail-ddilysu).

4.2.6 Y disgwyl yw y bydd rhaglen, wedi iddi gael ei chymeradwyo gan y Brifysgol , yn cael ei dilysu o fewn 2 flynedd. Os na cheisir neu os na lwyddir i'w dilysu yn ystod y cyfnod hwn, bydd angen cymeradwyaeth bellach. Yn ogystal, ar ôl datblygu rhaglen, os bydd y rhaglen sydd i'w hanfon ymlaen i'w dilysu'n wahanol iawn i'r rhaglen a gymeradwywyd (er enghraifft, newidiwyd teitl

arfaethedig y rhaglen neu ychwanegwyd dyfarniadau ychwanegol), bydd angen cymeradwyaeth bellach.

4.2.7 I grynhoi, mae cymeradwyo rhaglenni yn cynnwys nifer o brosesau fel a ganlyn:

- paratoi dogfennaeth Cam 1;
- craffu mewnol a rhoi sylwadau ar ddogfennaeth Cam 1;
- paratoi dogfennaeth derfynol Cam 1;
- Yr Athrofa'n ystyried dogfennaeth Cam 1 ac yn argymell: Cymeradwyo; Gwrthod; Diwygio ac ailgyflwyno
- Y TCA yn ei hystyried ac yn argymell: Cymeradwyo; Gwrthod; Diwygio ac ailgyflwyno.

## 4.3 Dilysu rhaglenni (Cam 2)

4.3.1 Pwrpas cam dylunio'r rhaglen yw sicrhau bod:

- y rhaglen yn ymgorffori strategaeth asesu berthnasol a systematig;
- y Strategaeth Cyfoethogi Dysgu ac Addysgu wedi'i hymgorffori o fewn y rhaglen fel y bo'n briodol;
- Priodoleddau Graddedigion y Brifysgol wedi'u hymgorffori o fewn y rhaglen fel y bo'n briodol;
- y rhaglen yn ymgorffori egwyddorion allweddol dylunio rhaglenni cynhwysol;
- anghenion y garfan arfaethedig o fyfyrwyr wedi'u hystyried yn briodol;
- y rhaglen yn cadw at yr *UK Quality Code for Higher Education* diwygiedig, fframweithiau cymwysterau cenedlaethol ac unrhyw feincnodau pwnc, fel y bo'n briodol;
- y rhaglen yn sicrhau trylwyredd ac ymestyn priodol;
- y rhaglen yn cymryd i ystyriaeth ddata adborth myfyrwyr (mewnol a/neu allanol fel y bo'n briodol);
- y rhaglen yn cadw at Safonau Cyrff PSRB, Safonau Prentisiaethau a safonau / codau ymarfer eraill yn gysylltiedig â chyflogwyr.

4.3.2 Disgwylir y bydd timau rhaglenni'n ymgynghori ac yn cysylltu â'r rhanddeiliaid mewnol ac allanol canlynol, fel y bo'n briodol, fel rhan o'r broses ddilysu:

- o leiaf un cynghorydd pwnc allanol;
- cyflogwyr, cyrff PSRB, cyrff prentisiaethau neu sefydliadau eraill yn y diwydiant;
- myfyrwyr;
- cynrychiolwyr o wasanaethau proffesiynol (e.e. y Llyfrgell ac Adnoddau Dysgu, TaSG, Gwasanaethau Myfyrwyr, Swyddfa Academaidd);
- rhanddeiliaid eraill (e.e. Athrofeydd eraill, sefydliadau partner, cyrff anllywodraethol).

4.3.3 Disgwylir y bydd myfyrwyr yn rhanddeiliaid allweddol ar gam dylunio'r rhaglen. Gellir ymgynghori â myfyrwyr trwy amrywiaeth o ddulliau gan gynnwys:

- cyfarfodydd ymgynghori â'r garfan;
- cyfarfodydd ymgynghorol â chynrychiolwyr myfyrwyr;
- grwpiau ffocws penodedig gyda myfyrwyr cyfredol;
- ymgynghori â chyn-fyfyrwyr;
- aelodaeth o dîm dylunio rhaglen;
- aelodaeth o gyfarfod yn ymwneud â dilysu.

4.3.4 Disgwylir y dewisir dull o ymgysylltu â myfyrwyr sy'n cadw at yr egwyddor o 'fyfyrwyr fel partneriaid' ac sy'n caniatáu deialog gyda myfyrwyr.

4.3.5 Yn ogystal, disgwylir, lle bo modd, y bydd amrywiaeth o ddata adborth myfyrwyr (data arolygon, data holiaduron modwl) yn ogystal â data cyrhaeddiad myfyrwyr ar gyfer myfyrwyr ar raglenni tebyg / o fewn y maes pwnc cyffredin yn cael ei ystyried yn systematig wrth ddylunio rhaglen.

4.3.6 Mae dilysu rhaglenni'n cynnwys nifer o brosesau, sy'n cynnwys:

- paratoi dogfennaeth gychwynnol ddrafft;
- craffu allanol a mewnol a sylwadau ar ddogfennaeth gychwynnol ddrafft;
- craffu a llofnodi dogfennaeth ddrafft a gymeradwywyd yn allanol/yn fewnol;
- lle bo'n briodol, cyfarfod dilysu ffurfiol;
- paratoi dogfennaeth ddrafft derfynol;
- cadarnhad gan y Deon neu'r enwebai bod y ddogfennaeth derfynol ddrafft wedi'i chwblhau yn briodol, gan ystyried mewnbwn allanol a mewnol a bod yr holl ddogfennaeth ofynnol ar gael i gefnogi'r cyflwyniad a gymeradwyir gan yr Athrofa sy'n cael ei ystyried a'i gymeradwyo gan PSA.

4.3.7 Gall y broses dilysu rhaglenni yn achos cyrsiau byrion a microgymwysterau (microcredentials) ofyn am ddogfennaeth wahanol i gyrsiau sy'n arwain at ddyfarniad, ond fel arfer byddai'r broses yn cynnwys:

- paratoi dogfennaeth ddrafft gychwynnol;
- craffu a rhoi sylwadau ar y ddogfennaeth ddrafft gychwynnol;
- craffu a chadarnhau dogfennaeth ddrafft a gymeradwywyd;
- paratoi dogfennaeth ddrafft derfynol;
- cadarnhad gan y Deon neu'i enwebai bod drafft terfynol y ddogfennaeth wedi'i gwblhau'n briodol, gan gymryd i ystyriaeth y mewnbwn a ddarparwyd yn rhan o'r broses, a bod yr holl ddogfennaeth sy'n ofynnol ar gael i gefnogi'r cyflwyniad a gymeradwywyd gan yr Athrofa sy'n cael ei ystyried a'i gymeradwyo gan y PSA.

4.3.8 Mae'r Ddogfen Rhaglen Derfynol yn cynnwys y ddogfennaeth sy'n amlinellu dyluniad, strwythur, nodau a deilliannau dysgu, a modylau'r rhaglen. Pan fydd y rhaglen arfaethedig yn cael ei chyflwyno yn y Gymraeg a'r Saesneg, fel rheol rhaid i'r Ddogfen Rhaglen Derfynol gael ei chyflwyno yn y ddwy iaith.

4.3.9 Lle bydd y rhaglen arfaethedig yn cael ei chyflwyno mewn iaith ar wahân i'r Gymraeg neu'r Saesneg, rhaid llunio'r Ddogfen Rhaglen ddrafft a'r fersiwn derfynol, bendant o Ddogfen y Rhaglen yn Saesneg.

4.3.10 Ni ellir dechrau cyflwyno'r rhaglen tan i'r broses ddilysu gael ei chwblhau. Yn dilyn y gymeradwyaeth derfynol, bydd y Swyddfa Academaidd yn hysbysu adrannau eraill y Brifysgol fel y bo'n briodol.

## 4.4 Sefydliadau Partner

4.4.1 Bydd y Swyddfa Partneriaethau Cydweithredol yn gyfrifol am arwain ar bob proses ddilysu mewn cysylltiad ag Athrofa briodol y Brifysgol. Disgwylir y bydd cyfarfod dilysu ffurfiol yn gysylltiedig â chyflwyno rhaglen yn y sefydliad partner.

4.4.2 Darperir rhagor o wybodaeth am ddilysu darpariaeth sefydliadau partner, gan gynnwys cymeradwyo canolfannau cyflwyno newydd ar gyfer partneriaid presennol a rhaglenni Prifysgol, ym Mhennod 9.

## 4.5 Cyrff Proffesiynol, Statudol a Rheoleiddio (PSRB) a Safonau Prentisiaethau

4.5.1 Gyda chymeradwyaeth Cadeirydd y PSA (neu'r enwebai), gellir addasu'r prosesau dilysu a ddisgrifir uchod i adlewyrchu gofynion cyrff PSRB perthnasol neu Safonau Prentisiaethau. Gall yr addasu hwn gynnwys y canlynol (ond nid yw'n gyfyngedig i'r rhain): gwybodaeth ychwanegol yn Nogfen ddrafft y Rhaglen; llunio dogfennaeth ychwanegol i gyd-fynd â Dogfen ddrafft y Rhaglen, trefnu cyfarfod ffurfiol i ystyried y risgiau penodol sy'n ymwneud â chyflwyno'r rhaglen arfaethedig; a phresenoldeb cynrychiolydd PSRB / Corff Prentisiaethau yng nghyfarfod perthnasol y PSA.

4.5.2 O ran Prentisiaethau, rhaid i Dîm y Rhaglen weithio gyda'r Uned Prentisiaethau i gadarnhau union ofynion y safonau prentisiaeth priodol.

4.5.3 Pan fo'r rhaglen arfaethedig wedi'i dylunio'n gyfan gwbl gan y PSRB a'r PSRB yw'r corff dyfarnu, mae Tîm y Rhaglen yn gyfrifol am gadarnhau union ofynion y PSRB perthnasol a hysbysu'r Swyddfa Academaidd yn unol â hynny.

### 4.6 Monitro Rhaglenni ac Adolygiadau Blynyddol

4.6.1 Ystyria'r Brifysgol fod monitro ac adolygu rhaglenni'n broses barhaus – yn rhan annatod o weithgareddau addysgu, dysgu ac asesu. Trwy'r broses hon cesglir adborth gan fyfyrwyr, rhoddir sylw i faterion a hyrwyddir arfer da. Penllanw'r broses hon yw'r broses adolygu flynyddol.

4.6.2 Pwrpas monitro rhaglenni ac adolygiadau blynyddol yw adfyfyrio ar effeithiolrwydd portffolio academaidd y Brifysgol a sicrhau bod:

- rhaglenni wedi'u dylunio'n dda ac o ansawdd uchel;
- mecanweithiau asesu effeithiol yn eu lle;
- systemau cymorth priodol yn eu lle i sicrhau bod yr holl fyfyrwyr yn derbyn y cymorth sydd ei angen arnynt i gyflawni deilliannau academaidd a phroffesiynol llwyddiannus;
- ansawdd a safonau'n cael eu cynnal.

4.6.3 Cydnabyddir y bydd gwahaniaethau yn y modd y cymhwysir y prosesau a amlinellir yn y fframwaith hwn. Er enghraifft, mae nifer o raglenni'n defnyddio dulliau cyflwyno hyblyg: mae rhaglenni'n cynnig pwyntiau mynediad lluosog, yn cael eu darparu ar ddull carlam ac ar draws blynyddoedd academaidd. O ganlyniad, mewn rhai achosion, nid yw dull cyflwyno'r rhaglen yn cyd-fynd â chylch cyffredinol y Brifysgol o fonitro rhaglenni ac adolygu rhaglenni'n flynyddol. Cydnabyddir y gallai hyn effeithio ar natur yr adfyfyrio a'r dadansoddi gan rai timau rhaglen. I ddygymod â'r gwahaniaethau hyn, gall Athrofeydd, o fewn y fframwaith, yr egwyddorion a'r llinellau amser cyffredinol, benderfynu drostyn nhw'u hunain ar yr union broses i'w dilyn ar gyfer adolygiadau blynyddol a monitro rhaglenni. Mae'r fframwaith gwerthuso a monitro rheolaidd yn dal i fod yn allweddol bwysig i helpu adfyfyrio ar berfformiad a gyrru gwelliant parhaus.

4.6.4 Mae'r broses adolygu flynyddol hefyd yn caniatáu i Dimau Rhaglen sicrhau bod y rhaglenni'n parhau'n gyfoes ac i argymell newidiadau i agweddau ar eu rhaglenni sydd wedi'u cymeradwyo. Yn rhan o'r broses adolygu flynyddol, ystyrir gwybodaeth o ystod o ffynonellau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- data allweddol am hynt myfyrwyr (yn ymwneud â chofrestru, cynnydd, cyrhaeddiad, deilliannau);
- data marciau modylau;
- data adborth myfyrwyr (gwerthusiadau modwl a rhaglen, canlyniadau arolygon);
- cofnodion Pwyllgorau Staff Myfyrwyr;
- sylwadau Arholwyr Allanol;

Mewn perthynas â data, ystyrir tueddiadau yn ogystal â pherfformiad yn gysylltiedig â meincnodau sector a phwnc perthnasol.

4.6.5 Mae'r broses adolygu flynyddol o fewn Athrofeydd a sefydliadau partner cydweithredol yn cynnwys:

- adroddiad ar lefel Clwstwr Rhaglenni, yn unol â'r templed a ddarperir yn atodiad 11a;
- adroddiad ar draws Athrofeydd, yn unol â'r templed a ddarperir yn atodiad 11b;
- adroddiad ar lefel Clwstwr Disgyblaethau Academaidd, yn unol â'r templed a ddarperir yn atodiad 11e;
- adroddiad ar lefel Athrofa, yn unol â'r templed a ddarperir yn atodiad 12;

- monitro cynnydd yn ffurfiol yn erbyn cynlluniau gweithredu'r PSA yn ystod y flwyddyn academaidd.

4.6.6 Caiff Athrofeydd a sefydliadau partner benderfynu ar yr union brosesau adolygu blynyddol, yn unol â'r egwyddorion sydd wedi'u nodi isod.
Disgwylia'r Brifysgol y cedwir at yr egwyddorion canlynol:

- Trafodir adroddiadau ABRh fel y bo'n briodol gyda chynrychiolwyr myfyrwyr (e.e. o fewn Pwyllgorau Staff Myfyrwyr) a rhoddir gwybod i'r myfyrwyr am ddeilliannau'r prosesau ABRh;
- Trafodir adroddiadau ABRh fel y bo'n briodol gyda staff academaidd o fewn Athrofeydd;
- Ystyrir adroddiadau ABRh fel y bo'n briodol o fewn strwythurau rheoli'r Athrofeydd;
- Caiff cynnydd yn erbyn cynlluniau gweithredu ei fonitro;
- Mae'n ofynnol i Athrofeydd sicrhau bod proses ymgysylltu systematig yn ei lle gyda gwasanaethau proffesiynol fel y gellir ystyried unrhyw faterion a amlygir gyda gwasanaethau proffesiynol a'u gweithredu fel y bo'n briodol;
- Mae'n ofynnol i Athrofeydd sicrhau bod deilliannau adolygiadau blynyddol yn cael eu cyfleu fel y bo'n briodol i staff, myfyrwyr a rhanddeiliaid allanol (e.e. PSRB).

4.6.7 Wedi i'r prosesau gael eu cwblhau yn yr Athrofeydd, bydd y PSA yn ystyried holl adroddiadau'r Athrofeydd a'r Disgyblaethau Academaidd yn ogystal â sampl o adroddiadau Clystyrau Rhaglenni.

4.6.8 Lle tynnwyd darpariaeth rhaglen yn ôl yn ffurfiol gan y Brifysgol, disgwylir y bydd y rhaglen yn cael ei chynnwys yn adolygiad y clwstwr rhaglenni tan i unrhyw fyfyrwyr sy'n weddill gwblhau eu hastudiaethau.

4.6.9 Pan fo rhaglen yn cael ei darparu mewn nifer o leoliadau a/neu drwy sawl dull darparu ac nid yw'n rhannu arholwyr allanol ar draws carfannau, bydd y PSA yn penderfynu ar system adolygu briodol i sicrhau cysondeb ansawdd, safonau a chyraeddiadau ar draws y rhaglen.

4.6.10 Yn ychwanegol at y prosesau adolygu blynyddol ar lefel rhaglen, disgyblaeth academaidd ac Athrofa/sefydliad partner cydweithredol, llunnir nifer o adroddiadau trosolwg blynyddol yn ganolog gan y Swyddfa Academaidd a'r Swyddfa Partneriaethau Cydweithredol i gynnal goruchwyliaeth ar lefel gyffredinol y Brifysgol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- adroddiad trosolwg Arholwyr Allanol;
- adroddiad trosolwg ar Raddau Ymchwil;
- adroddiad trosolwg ar safonau gradd;
- adroddiad trosolwg ar achosion myfyrwyr;
- adroddiad trosolwg ar ddilysu;
- adroddiad trosolwg partneriaid.

### *Adolygiadau blynyddol ar lefel clwstwr rhaglenni*

4.6.11 Ar lefel clwstwr rhaglenni, rhaid i'r broses adolygu flynyddol gynnwys:

- crynodeb o ddatblygiadau allweddol i'r rhaglen(ni) ers yr adolygiad blynyddol diwethaf;
- adfyfyrio ar ddata allweddol yn gysylltiedig â hynt myfyrwyr (cofrestru, tynnu'n ôl a chynnydd, cyrhaeddiad a deilliannau);
- adfyfyrio ar ymgysylltu â myfyrwyr yn ystod y cyfnod adolygu, gan gynnwys adborth gan fyfyrwyr ac ymatebion i'r adborth hwnnw;
- dynodi meysydd cryfder a meysydd i'w gwella ymhellach;
- cadarnhad o ran sut yr aed i'r afael â'r materion a godwyd gan arholwyr allanol;
- lle bo'n berthnasol, cadarnhad y cedwir at Brotocol Lleoliadau'r Brifysgol;
- cynllun gweithredu rhaglen wedi'i ddiweddaru (gan gynnwys unrhyw argymhellion i wasanaethau proffesiynol);

4.6.12 Os bydd mwy nag un Athrofa'n ymwneud â chyflwyno rhaglen, bydd un Athrofa'n arwain ar baratoi'r ddogfennaeth ond disgwylir fel rheol i gynrychiolwyr pob Athrofa gymryd rhan yn y broses adolygu flynyddol.

### *Adolygiadau blynyddol ar lefel Disgyblaeth Academaidd*

4.6.13 Ar lefel Disgyblaeth Academaidd, adolygir dogfennau ABRh a lunnir gan glystyrau rhaglenni. Penderfynir ar yr union broses gan bob Athrofa (gweler 4.6.3). Fel rhan o'r cam hwn o'r broses, llunnir adroddiad trosolwg wedyn ar lefel Disgyblaeth Academaidd. Gall yr adroddiad hwn gynnwys nifer o bynciau academaidd gwahanol gan ddibynnu ar strwythur yr Athrofa.

4.6.14 Rhaid i'r adroddiad a lunnir ar y lefel hon gynnwys:

- cadarnhad bod ansawdd a safonau wedi'u cynnal ar draws y rhaglenni yn y Ddisgyblaeth Academaidd a, lle bo'n berthnasol, mewn sefydliadau partner cydweithredol;
- cadarnhad bod ymatebion priodol wedi'u rhoi gan dimau rhaglenni mewn ymateb i adroddiadau Arholwyr Allanol;
- cadarnhad bod adroddiadau ABRh wedi'u llunio ar gyfer pob clwstwr rhaglenni o fewn y Disgyblaethau Academaidd;
- cadarnhad yr ymgysylltwyd ag unedau proffesiynol ar faterion a godwyd yn adroddiadau clystyrau rhaglenni;
- crynodeb lefel uchel o feysydd risg, gwendidau ac arfer da o fewn y rhaglenni sydd wedi'u cynnwys yn y Ddisgyblaeth Academaidd;
- dynodi unrhyw themâu a / neu faterion a nodwyd yn adroddiadau clystyrau rhaglenni y mae angen mynd i'r afael â nhw ar lefel Disgyblaeth Academaidd;
- adfyfyrio ar effeithiolrwydd y dulliau ymgysylltu â myfyrwyr ar lefel Disgyblaeth Academaidd;
- adfyfyrio ar lefel uchel ar unrhyw wahaniaethau arwyddocaol o ran dilyniant, cyrhaeddiad a deilliannau rhwng y gwahanol glystyrau rhaglenni neu raglenni a gyflwynir mewn nifer o leoliadau, gan nodi unrhyw faterion y mae angen mynd i'r afael â nhw;
- lle bo hynny'n berthnasol, gwerthusiad o'r cydweithio â sefydliadau partner (wedi'i lywio gan ystyriaeth o adroddiadau Arweinwyr Tîm Partneriaeth a'r adroddiad ABRh a gyflwynir gan y sefydliad partner);
- rhestr wedi'i diweddaru o flaenoriaethau strategol y Ddisgyblaeth Academaidd.

### *Adolygiadau Blynyddol ar lefel Athrofa*

4.6.15 Ar ôl cwblhau'r broses ABRh ar lefel Disgyblaeth Academaidd, mae proses ar lefel Athrofa. Penderfynir ar yr union broses gan yr Athrofeydd (gweler 4.6.3). Fel rhan o'r cam hwn o'r broses, mae'r Athrofa'n llunio adroddiad i'r PSA. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys:

- cadarnhad bod y broses wedi'i chwblhau yn unol â'r egwyddorion a amlinellir yn y LIAA;
- cadarnhad bod pob adroddiad ar Ddisgyblaethau Academaidd perthnasol ac adroddiadau ABRh wedi'u cwblhau a'u hystyried fel y bo'n briodol;
- ymateb i unrhyw argymhellion ar gyfer yr Athrofa a wnaed gan glystyrau rhaglenni a Disgyblaethau Academaidd;
- cadarnhad fod blaenoriaethau Disgyblaethau Academaidd yn cyd-fynd â blaenoriaethau strategol Athrofeydd a'r Brifysgol;
- cadarnhad y cafwyd ymgynghori priodol â gwasanaethau proffesiynol perthnasol mewn perthynas ag unrhyw faterion a nodwyd;
- nodi arfer da i'w rannu ar draws yr Athrofa a'r Brifysgol;
- ystyried unrhyw gam(au) gweithredu y mae angen eu cymryd o ran portffolio rhaglenni'r Athrofa.

*Adolygiadau blynyddol gan y Pwyllgor Safonau Academaidd*

4.6.16 Mae'r PSA, ar ran y Senedd, yn gyfrifol am sicrhau bod y broses adolygu flynyddol yn cael ei chynnal yn unol  â gofynion y Brifysgol a'i bod yn addas i'r diben. I'r perwyl hwn, bydd y PSA yn:

- ystyried adroddiadau'r Athrofeydd, adroddiadau Disgyblaethau Academaidd, ac adroddiadau Trosolwg Partneriaid er mwyn cadarnhau bod y broses adolygu flynyddol wedi'i chynnal yn unol â'r gofynion ar bob lefel;
- ystyried sampl o adroddiadau clystyrau rhaglenni;
- trafod unrhyw faterion sy'n gofyn am ystyriaeth ar lefel sefydliadol.

4.6.17 Ystyrir sampl o adroddiadau clystyrau rhaglenni o Athrofeydd a Sefydliadau Partner Cydweithredol yn y PSA. Rhaid i'r sampl gynnwys rhaglenni lle:

- mae adolygiad diweddar gan PSRB wedi nodi materion sydd angen sylw;
- mae'r adroddiad diweddaraf gan yr arholwr allanol wedi codi materion sy'n destun gofid mewn perthynas â safonau academaidd;
- mae'r adroddiad diweddaraf gan yr Arweinydd Tîm Partneriaeth wedi codi materion sy'n destun gofid mewn perthynas â safonau academaidd;
- maent mewn meysydd pwnc sy'n newydd i Ddisgyblaeth neu Athrofa;
- mae gan y rhaglen gyfradd foddhad NSS islaw'r meincnod perthnasol.

4.6.18 Trafodir yr adroddiadau a amlinellir yn 4.6.5 yn un o gyfarfodydd y PSA. At ddibenion y rhan hon o'r cyfarfod perthnasol, rhaid i aelodaeth y PSA gynnwys o leiaf un person o'r tu allan i'r Brifysgol.

4.6.19 Mae'r adolygiad canolog o ddogfennaeth ABRh yn y PSA yn gwneud yn siŵr:

- bod y Brifysgol yn sicrhau ei hun fod unrhyw faterion yn cael eu dynodi gan dimau rhaglenni, Disgyblaethau Academaidd, yr Athrofeydd a sefydliadau partner cydweithredol  a bod cynlluniau gweithredu priodol yn eu lle i fynd i'r afael ag unrhyw faterion;
- bod cysondeb o ran ansawdd, safonau, a chyraeddiadau ar draws y rhaglenni a'r carfanau gwahanol;
- y gellir rhannu arfer da ar draws y Brifysgol;
- y gellir dynodi materion y mae'n fwy priodol mynd i'r afael â nhw ar lefel sefydliadol;
- yr asesir effeithiolrwydd systemau adolygu;
- y cesglir adborth yn systematig gan randdeiliaid allweddol am brosesau adolygu blynyddol fel y gellir parhau i wella'r rhain, yn ogystal â phrosesau dylunio a dilysu rhaglenni.

*Monitro Rhaglenni ac Adolygiadau Blynyddol mewn Sefydliadau Partner Cydweithredol*

4.6.20 Mae'n ofynnol i sefydliadau partner cydweithredol gadw at yr egwyddorion monitro ac adolygu rhaglenni a amlinellir yn 4.6.6.

4.6.21 Bydd sefydliadau partner cydweithredol yn derbyn adborth ar eu cyflwyniadau i ABRh.  Yn ogystal trafodir monitro ac adolygu rhaglenni yn y gynhadledd flynyddol i bartneriaid i rannu arfer da rhwng partneriaid a pharhau i wella arfer.

## 4.7 Ail-ddilysu

4.7.1 Mae pob rhaglen yn destun ail-ddilysiad ffurfiol o leiaf unwaith bob 5 mlynedd. O fewn yr amserlen gyffredinol hon, gallai'r Athrofa gynnig bod rhaglen yn cael ei hail-ddilysu'n gynharach (gan gynnwys lle byddai newidiadau a gynigir trwy'r broses adolygu flynyddol yn arwain at newidiadau sylweddol i'r rhaglen).

4.7.2 Bydd yr amserlenni ail-ddilysu ar gyfer rhaglenni'n cael eu hymgorffori yn amserlen ddilysu'r Athrofa a gyflwynir i'r Pwyllgor Safonau Academaidd. Lle mae angen ail-ddilysu rhaglenni o ganlyniad i'r broses adolygu flynyddol, bydd amserlen ddilysu'r Athrofa'n cael ei diwygio a'i hailgyflwyno i'r PSA.

4.7.3 Bydd ail-ddilysiad ffurfiol yn cael ei gynnal gan ddilyn yr un gweithdrefnau ag ar gyfer Dilysu Rhaglenni fel sydd wedi'u nodi yn Adran 4.3 uchod.

4.7.4 Gall y PSA argymell proses ailddilysu symlach o fewn y cylch rhaglenni 5 mlynedd. Penderfynir ar y broses symlach ar sail natur y newidiadau sy'n ofynnol ar gyfer y rhaglen a phennir fformat y broses gan y PSA cyn dechrau ar y broses ailddilysu.

4.7.5 Os bydd Tîm Rhaglen yn dymuno newid teitl rhaglen gyfredol fel rhan o'r broses ailddilysu, dylai'r Tîm gyflwyno cynnig ar gyfer Addasiad Arwyddocaol (Atodiad PV1a) cyn dechrau gweithio ar y ddogfennaeth rhaglen ddrafft.

**Sefydliadau Partner Cydweithredol**

4.7.6 Mae'r prosesau ail-ddilysu ffurfiol a ddisgrifir uchod yn berthnasol yn eu cyfanrwydd i gynigion ar gyfer rhaglenni cydweithredol. Wrth ddilyn y gweithdrefnau ar gyfer Dilysu Rhaglenni fel y nodwyd yn Adran 4.3-4.4 ar gyfer ail-ddilysu rhaglenni cydweithredol, ni fydd y disgwyliad arferol am gyfarfod ffurfiol fel y nodwyd ym mharagraff 4.4.1 yn berthnasol, ond gallai cyfarfod ffurfiol fod yn ofynnol lle dynodwyd risgiau penodol.

## 4.8 Addasiadau i raglenni presennol

4.8.1 Gallai Timau Rhaglen gael eu caniatáu i addasu agweddau ar eu rhaglenni cymeradwy a chael eu caniatáu i wneud newidiadau i'r cynnwys er mwyn sicrhau bod y rhaglenni'n parhau'n gyfoes. Mae gan y PSA, ar ran y Senedd, arolygiaeth o bob addasiad o'r fath er mwyn sicrhau bod ansawdd a safonau academaidd yn cael eu cynnal, a galluogi'r Swyddfa Academaidd i gynnal cofnodion cywir, pendant o bob rhaglen.

4.8.2 Mae'r egwyddorion canlynol yn berthnasol ym mhob achos:

- fel rheol, ni fydd newidiadau'n cael eu gwneud yn ôl-weithredol;
- ni ddylai'r newidiadau wrthdaro ag unrhyw amodau a/neu argymhellion ffurfiol a wnaed wrth ddilysu, ail-ddilysu, neu yn adolygiad blynyddol diwethaf y rhaglen heb gyfiawnhad cryf;
- rhaid ystyried goblygiadau newidiadau i fodylau ar gyfer unrhyw raglenni astudio eraill sy'n defnyddio'r modwl(modylau) (os o gwbl) cyn y gellir cymeradwyo'r newidiadau. Os na fydd Timau Rhaglenni'n gallu dod i gytundeb ar newidiadau, hwyrach y bydd angen cynnig creu modwl newydd;
- os cyflwynir y rhaglen gan fwy nag un Athrofa neu gan un sefydliad partner cydweithredol neu fwy yn ogystal â'r Brifysgol, ymgynghorir â phob parti am yr addasiadau arfaethedig a byddant yn cael cyfle i gyfrannu at drafodaethau.

***Addasiadau sy'n gofyn am gymeradwyaeth y Tîm Cynllunio Academaidd a'r Pwyllgor Safonau Academaidd***

4.8.3 Mewn amgylchiadau eithriadol, gall y Tîm Cynllunio Academaidd awdurdodi newidiadau i'r cwricwlwm ar draws portffolio'r Brifysgol (e.e. y dull cyflwyno, patrymau asesu, deilliannau dysgu, arlwy o fodylau ac unrhyw newidiadau eraill sydd eu hangen). Mewn achosion o'r fath bydd Athrofeydd a sefydliadau partner cydweithredol yn cysylltu ag arholwyr allanol a chyrff PSRB fel y bo'n briodol ac yn cymryd i ystyriaeth gyngor y sector (e.e. ASA, OIA, Advance HE, Jisc). Cymeradwyir pob newid gan y Tîm Cynllunio Academaidd a'u hadrodd i'r PSA.

4.8.4 Yn ogystal â'r cynigion ar gyfer rhaglenni astudio newydd, mae angen cymeradwyaeth y Tîm Cynllunio Academaidd ar gyfer y canlynol:

- newid i deitl y rhaglen neu'r dyfarniad;
- newid i'r dull cyflwyno (amser llawn/rhan-amser/dysgu cyfunol/iaith ac ati);
- newid i'r lleoliad cyflwyno (campws gwahanol, oddi ar y safle neu allgymorth);
- cyflwyno llwybr newydd wedi'i enwi mewn dyfarniad cymeradwy;
- newid sy'n cario gofynion ychwanegol mewn perthynas ag adnoddau.

4.8.5 Yn yr achosion hynny, rhaid i'r cynnig gael ei ystyried a'i gymeradwyo yn y lle cyntaf gan yr Athrofa berthnasol/adran benodedig arall o'r Brifysgol ac yna'i gyflwyno'n ganolog, gan ddefnyddio'r ffurflen berthnasol (Atodiad PV1a). Ar ôl cael cymeradwyaeth yn ganolog, rhaid anfon y ffurflen PV1a ymlaen i'r Swyddfa Academaidd gyda'r ddogfennaeth ategol berthnasol. Bydd y Swyddfa Academaidd yn trefnu i'r cynnig gael ei ystyried yng nghyfarfod priodol nesaf y PSA, a fydd naill ai'n cymeradwyo'r cynnig fel y'i cyflwynwyd, neu'n penderfynu ar y broses gymeradwyo i'w dilyn. Bydd yr amseru o ran pryd y gwneir cais am addasiadau mawr yn effeithio ar pryd y gellir gweithredu'r newidiadau. Lle bo'n berthnasol, bydd y Swyddfa Academaidd yn gyfrifol am roi gwybod i'r PSRB perthnasol am yr addasiadau a gymeradwywyd yn dilyn hynny gan y PSA.

***Addasiadau y gellir eu cymeradwyo gan Fwrdd Athrofa/adran benodedig arall o'r Brifysgol neu eu hadrodd iddynt***

4.8.6 Gall y Bwrdd Athrofa perthnasol gymeradwyo'r newidiadau canlynol sydd heb fod yn sylweddol a hysbysu'r PSA amdanynt gan ddefnyddio Atodiad PV9:

- newidiadau i'r canlyniadau dysgu, y fethodoleg asesu, neu gynnwys mynegol y modylau presennol;
- newid i deitl modwl cymeradwy;
- ychwanegu modwl cymeradwy at lwybr a enwyd;
- cyflwyno deunydd newydd neu fodylau newydd nad ydynt yn arwain at newid sylweddol (gweler 4.8.8) i'r rhaglen (lle byddai newid sylweddol yn digwydd, dylid dilyn y gweithdrefnau ar gyfer ail-ddilysu a nodwyd yn Adran 4.7);
- mân newidiadau strwythurol;
- cynnig modwl sydd wedi'i gymeradwyo yn y rhaglen mewn iaith wahanol.

4.8.7 Yn yr achosion hynny, rhaid cyflwyno'r newidiadau cymeradwy i'r Swyddfa Academaidd er mwyn adrodd amdanynt i'r PSA ac i adrannau perthnasol y Brifysgol. Lle bo'n berthnasol, mae'r Swyddfa Academaidd yn gyfrifol am roi gwybod i'r PSRB perthnasol am y newidiadau.

***Addasiadau y gellir eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Safonau Academaidd***

4.8.8 Gall newidiadau sylweddol gael eu cymeradwyo gan y PSA naill ai trwy broses ailddilysu lawn neu symlach.

4.8.9 Byddai cyflwyno deunydd neu fodylau newydd yn arwain at newid sylweddol:

- os newidir y mathau o arf asesu a ddefnyddir yn sylweddol (er enghraifft, cyflwyno asesiad trwy arholiad, lle na ddefnyddiwyd arholiadau o gwbl cyn hynny);
- os ydy nifer y modylau dewisol a gynigir yn cael ei gostwng yn sylweddol a bod nifer y modylau gorfodol yn cael eu cynyddu'n sylweddol;
- os ceir newidiadau i'r fanyleb rhaglen yn achos rhaglen gyfredol;
- os ydy'r rhaglen yn colli achrediad corff proffesiynol.

### Addasiadau i Raglenni Astudio mewn Sefydliadau Partner Cydweithredol

4.8.10 Mae'r prosesau addasu a ddisgrifir uchod yn berthnasol yn eu cyfanrwydd i raglenni partneriaethau cydweithredol.

### Atal neu Dynnu Rhaglenni Astudio yn ôl

4.8.11 Mae'r Senedd yn gyfrifol am gadarnhau'r mesurau a gymerir i hysbysu a diogelu buddiannau'r myfyrwyr sydd wedi'u cofrestru ar gyfer, neu wedi'u derbyn i gael mynediad i'r rhaglen. Wrth ddelio â materion etifeddiaeth, rhaid i'r Senedd sicrhau y cymerir camau priodol i sicrhau safonau ac ansawdd academaidd, cywerthedd profiad y myfyrwyr a rheoli unrhyw risgiau i enw da neu risgiau ariannol a allai godi o ganlyniad i'r penderfyniad.

4.8.12 Rhaid i gynnig i atal rhaglen neu dynnu rhaglen yn ôl fynd yn gyntaf trwy strwythurau ymgynghori'r Athrofa/adran benodedig arall o'r Brifysgol, gan nodi'r rhesymau ac unrhyw drefniadau angenrheidiol i ddiogelu statws a dewis y myfyrwyr presennol a darpar fyfyrwyr. Lle cynigir rhaglen ar y cyd â sefydliad partner, rhaid i'r cynnig gynnwys gwybodaeth ynghylch sut yr ymgynghorwyd â'r sefydliad partner cydweithredol.

#### *Atal a thynnu'n ôl sy'n gofyn am gymeradwyaeth y Tîm Cynllunio Academaidd*

4.8.13 Pan fydd Athrofa'n argymell bod rhaglen(ni) yn cael eu hatal am o leiaf flwyddyn academaidd neu eu tynnu'n ôl yn barhaol, a bod goblygiadau staffio posibl; bod rhaglen(ni) yn peidio â derbyn ymgeiswyr newydd; neu fod gan raglen nifer bach o ymgeiswyr, yna mae'n rhaid i'r Athrofa wneud argymhelliad i'r Tîm Cynllunio Academaidd i gymeradwyo atal y rhaglen(ni) neu'u tynnu'n ôl. Dylid rhoi gwybod i'r Gofrestrfa ac i gyfarfod nesaf y PSA am benderfyniadau'r Tîm Cynllunio Academaidd

#### *Atal a thynnu'n ôl sy'n gofyn am gymeradwyaeth yr Athrofa*

4.8.14 Gall Athrofeydd gymeradwyo atal rhaglen(ni) neu eu tynnu'n ôl pan nad oes myfyrwyr neu ymgeiswyr; neu pan gyflwynir rhaglen â theitl newydd trwy'r broses (ail)ddilysu i gymryd lle'r rhaglen a atelir neu a dynnir yn ôl. Dylid rhoi gwybod i'r Gofrestrfa am benderfyniadau'r Athrofa gan ddefnyddio ffurflen briodol y Gofrestrfa, a bydd y Gofrestrfa yn adrodd ar bob penderfyniad i gyfarfod nesaf y PSA.

#### *Ceisiadau i atal dyddiadau derbyn unigol ar gyfer rhaglenni astudio*

4.8.15 Gall Athrofeydd gymeradwyo atal dyddiadau derbyn unigol os oes nifer o bwyntiau derbyn bob blwyddyn academaidd. Dylid rhoi gwybod i'r Gofrestrfa am benderfyniadau'r Athrofa gan ddefnyddio ffurflen briodol y Gofrestrfa, a bydd y Gofrestrfa yn adrodd ar bob penderfyniad i gyfarfod nesaf y PSA.

4.8.16 Pan gymeradwyir tynnu rhaglen yn ôl neu ei hatal, mae'n ofynnol i Athrofeydd gyfleu'r newidiadau i'r Gofrestrfa, myfyrwyr ac ymgeiswyr fel y bo'n briodol.